**ADRODDIAD I'R CABINET**
23 Mehefin 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Ysgol Machreth, Llanfachreth, Dalgylch Y Gader

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

## Y penderfyniad a geisir

- Tynnu'r rhybudd statudol ynglŷn ag Ysgol Machreth yn ôl.
- Cymeradwyo cychwyn proses amgen ar sail cynnig i gau yr ysgol yn fuan yn 2016.
- Wrth ddilyn y prosesau statudol, cynnig lle i ddisgyblion Ysgol Machreth yn Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn ystod y cyfnod trosiannol cyn sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ar 1 Medi 2017.

---

**Barn yr Aelod Lleol**

Cyflwynir unrhyw sylwadau gan yr Aelod Lleol yn y cyfarfod.

---

**1. CYFLWYNIAD**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ail-ymweld â sefyllfa Ysgol Machreth, Llanfachreth a hynny am y rhesymau canlynol:

- Ar **12 Mai 2015**, derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Machreth yn nodi bod y Corff Llywodraethu yn pryderu nad oedd yr ysgol bellach yn gynaliadwy. Ymddengys bod argyfwng staffio a bod Llywodraethwyr yr ysgol, mewn cydweithrediad â rhieni, wedi trefnu symud disgyblion i ysgol amgen yn unol â'r drefn mynediad arferol.
- Yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr ym mis Ionawr 2015, roedd 11 disgybl ar gofrestr yr ysgol. Erbyn **13 Mai 2015**, roedd ceisiadau mynediad wedi'u derbyn i drosglwyddo 10 o'r 11 disgybl i ysgolion eraill yn y dalgylch erbyn 1 Medi 2015.

**2. CEFNDIR**

2.1 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cyngor Llawn **14 Gorffennaf, 2011** ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Gader. Cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar **16 Gorffennaf, 2013** ac yn y cyfarfod hwnnw mabwysiadwyd gweledigaeth amlinellol ar gyfer y dalgylch.

2.2 Hanfod y weledigaeth amlinellol fyddai anelu at sicrhau'r deilliannau canlynol;

- Yr un cyfle a phrofiadau i holl ddisgyblion y dalgylch
- Mwy o sefydlogrwydd ar draws yr holl ddalgylch
- Gwell dilyniant ar draws yr ystod oedran
- Cyfleodd i rannu arbenigedd staff a mwy o gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol
- Cyfleoedd ehangach i gydlynu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig cefnogi teuluoedd
- Cryfhau'r ddarpariaeth addysg ar draws y dalgylch gan osod y sylfeini ar gyfer cydweithio, cydgynllunio a chyd-ddatblygu i'r dyfodol

2.3 Mae dyhead i sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy yn y dalgylch cyfan, a hynny ar draws yr holl sectorau. Bydd hyn yn golygu ystyriaeth i resymoli'r nifer, natur a statws yr ysgolion mewn rhai rhannau o'r dalgylch. O wireddu'r weledigaeth yn llawn golygai hyn y bydd modd cryfhau'r ddarpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader.

2.4 Ar **16 Medi 2014** cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ac yn ystod y cyfarfod, cymeradwywyd yr argymhellion canlynol:

> i. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017.*
> ii. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.*

2.5 Er mwyn gwneud rhestr hir o fodelau realistig bosibl, ystyriwyd safleoedd pob un o'r 10 ysgol yn y dalgylch. Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, diystyriwyd safle Ysgol Machreth fel safle posibl ar gyfer ysgol ardal neu ysgol ardal aml-safle, oherwydd ei leoliad o gymharu â'r boblogaeth ddisgyblion, ac anawsterau cyrraedd y safle o ystyried y ffyrdd a'r gofyn posibl i gludo niferoedd uchel o ddisgyblion.

2.6 Yn yr opsiwn a gafodd ei ffafrio, safleoedd cyfredol ysgolion Llanelltyd, Friog, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Gader a Chynradd Dolgellau fyddai'n aros ar agor fel safleoedd ar gyfer yr ysgol newydd. Byddai safleoedd ysgolion Ganllwyd, Clogau (Bontddu), Machreth a Brithdir yn cau ac ni fyddai'r safleoedd hyn yn ail-agor.

2.7 Yn unol â gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, cynhaliwyd **cyfnod o ymgynghori statudol** ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng **10 Hydref** ac 1 o'r gloch y prynhawn ar **24 Tachwedd 2014**.

2.8 Paratowyd dogfen ymgynghorol statudol, yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dosbarthwyd y ddogfen i'r ymgynghorai perthnasol. Mae'r ddogfen hon a'r holl ddogfennau cefndir i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.

2.9 Ar **13 Ionawr 2015** cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn cynnwys yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghorol. Yn y cyfarfod, penderfynwyd:

> i. *"Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.*
> ii. *Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.*
> iii. *Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddynt gael eu penodi o flaen amser, cymeradwyo cyllido pennaeth yr ysgol ddilynol ddalgylchol o arbedion y cynllun am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2017."*

2.10 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) **cyhoeddwyd rhybuddion statudol ar 25 Chwefror 2015** a chynhaliwyd **cyfnod gwrthwynebu** ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 25 Chwefror a 25 Mawrth 2015.

2.11 Cyhoeddwyd y rhybuddion statudol ar ddiwrnod ysgol 25 Chwefror 2015 a'u gosod ar giatiau'r 10 ysgol ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Gwnaethpwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

Cyhoeddwyd 5 rhybudd statudol:

- CAU YSGOL Y GADER, Dolgellau, LL40 1HY; YSGOL GYNRADD DOLGELLAU (Ysgol Wirfoddol a Reolir, Eglwys yng Nghymru), Dolgellau, LL40 2YW; YSGOL DINAS MAWDDWY, Machynlleth, SY20 9LN; YSGOL LLANELLTYD, Dolgellau, LL40 2TA; YSGOL IEUAN GWYNEDD, Rhydymain, Dolgellau, LL40 2AS; YSGOL FRIOG, Fairbourne, LL38 2RQ; ar 31 Awst 2017. a
  SEFYDLU Ysgol Ddilynol Dalgylchol 3-16 newydd ("yr ysgol 3-16") ar 1 Medi 2017. Bydd yr Ysgol 3-16 ar chwech safle, safleoedd presennol ysgolion Uwchradd Y Gader, Dolgellau, LL40 1HY, Cynradd Dolgellau, Dolgellau, LL40 2YW, Ieuan Gwynedd, Rhydymain, Dolgellau, LL40 2AS, Dinas Mawddwy, Machynlleth, SY20 9LN, Llanelltyd, Dolgellau, LL40 2TA a Friog, Fairbourne, Dolgellau, LL38 2RQ.

- CAU YSGOL MACHRETH ar 31 Awst 2017.

- CAU YSGOL BRITHDIR ar 31 Awst 2017.

- CAU YSGOL Y CLOGAU ar 31 Awst 2017.

- CAU YSGOL GANLLWYD ar 31 Awst 2017.

2.12 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol o'r gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio.

2.13 Ar **11 Mai 2015**, cyhoeddwyd adroddiad y Cabinet (19 Mai 2015), oedd yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

> i. *Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.*
>
> ii. *Yn sgîl pwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo/iddi gael ei b/phenodi ymlaen llaw, cymeradwyo sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn ystod Tymor yr Haf 2015 ac yna cyllido pennaeth yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol o arbedion y cynllun cyn gynted â phosibl.*

2.14 Ar **12 Mai 2015**, derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Machreth, Llanfachreth oedd yn nodi pryderon nad oedd yr ysgol yn gynaliadwy. Oherwydd y wybodaeth newydd hon oedd yn golygu newid arwyddocaol yn sefyllfa Ysgol Machreth, yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Mai, argymhellwyd ailymweld â sefyllfa'r ysgol a gohirio cadarnhau'r rhybudd parthed ei chau ar 31 Awst 2017 (a gyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2015).

Felly, y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar **19 Mai 2015** oedd:

*i. Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.*

*ii. Yn sgîl pwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo/iddi gael ei b/phenodi ymlaen llaw, cymeradwyo sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn ystod Tymor yr Haf 2015 ac yna cyllido pennaeth yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol o arbedion y cynllun cyn gynted â phosibl.*

*iii. Gohirio cadarnhau gweithredu rhybudd statudol Ysgol Machreth (Llanfachreth) er mwyn cael mwy o eglurdeb yn dilyn datblygiadau diweddar ynglŷn â'r ysgol.*

2.15 Dychwelir y mater i sylw'r Cabinet bellach i ystyried cadarnhau'r Rhybudd Statudol ai peidio. Cyfeirir y Cabinet yn benodol at yr adroddiad a gyflwynwyd ar 19 Mai 2015 yn cloriannu'r gwrthwynebiadau a'r ymatebion a dderbyniwyd (yr Adroddiad Gwrthwynebu) ynghyd â'r atodiadau.

## 3. SEFYLLFA YSGOL MACHRETH, LLANFACHRETH

3.1 Mae Ysgol Machreth wedi'i lleoli ym mhentref Llanfachreth yn Nalgylch y Gader, oddeutu 4 milltir o dref Dolgellau ac yn ysgol Wirfoddol a Reolir gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru) ("VC"). Mae'r ysgol yn cynnig lle i ddisgyblion o'i dalgylch naturiol ei hunan ac o bentrefi o fewn dalgylch y Gader. Mae disgyblion yn cael eu derbyn i'r ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

3.2 Mae Ysgol Machreth yn ysgol Wirfoddol a Reolir gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru) ("VC"). Mae cymeriad crefyddol ysgol Wirfoddol dan Reolaeth yn ystyriaeth bwysig o ran:

- Cymeriad yr Ysgol
- Aelodaeth y corff llywodraethol
- Perchnogaeth y safle

3.3 Mae mwyafrif y dysgu yn Ysgol Machreth trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Medi 2013 roedd 100% y disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Ym mis Ionawr 2013, roedd hawl gan 13% o'r disgyblion i gael cinio ysgol am ddim, ffigur sy'n sylweddol is na fffigurau cymharol Gwynedd a Chymru.

3.4 Isod nodir yr ystadegau ar gyfer Ysgol Machreth yn seiliedig ar ddata Medi 2014.

| Pellter o Ysgol Gynradd Dolgellau (Milltir) | Ystod Oed | Nifer Disgyblion Medi 2013 | Capasiti | Llefydd Gweigion | Nifer Disgyblion Medi 2014 | Llefydd Gweigion | Rhagamcanion 2015/16 | | Rhagamcanion 2016/17 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Nifer Disgyblion | Llefydd Gweigion | Nifer Disgyblion | Llefydd Gweigion |
| 3.8 | 3 - 11 | 16 | 46 | 30 (65%) | 12 | 34 (74%) | 9 | 37 (80%) | 8 | 38 (83%) |

3.5 Erbyn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ym mis Ionawr 2015, roedd 11 disgybl ar gofrestr yr ysgol. O'r 11 disgybl hyn, mae 4 yn byw yn nalgylch Ysgol Machreth a 7 yn all-ddalgylch. Erbyn 13 Mai 2015, yn dilyn trafodaethau rhwng y Corff Llywodraethu a'r rhieni, roedd ceisiadau mynediad wedi'u derbyn i drosglwyddo 10 o'r disgyblion i ysgolion eraill yn y dalgylch erbyn 1 Medi 2015.

3.6 Fel y gwelir o'r tabl isod, nid yw'r ysgol yn addas i ddysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Nid oes neuadd bwrpasol yn yr ysgol, nid yw'r ysgol wedi'i haddasu i ddysgu'r cyfnod sylfaen, nid oes ystafell i'r pennaeth ac nid oes ystafelloedd bychain ar gyfer gwaith grŵp neu addysg arbennig.

| Ysgol | Cyflwr Categori | Diffygion o ran Addasrwydd | | Ôl-groniad cynnal a chadw |
|---|---|---|---|---|
| Machreth | B | • Dim addasiadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen<br>• Dim cae chwarae<br>• Dim storfa yn y dosbarth<br>• Dim neuadd | • Dim ystafell grŵp bychan<br>• Dim ardal adnoddau<br>• Dim ystafell TG<br>• Dim swyddfa Pennaeth | £86,500 |

3.7 Mae Ysgol Machreth yn derbyn arian ychwanegol trwy'r polisi diogelu staffio. Mae'r polisi hwn yn sicrhau fod ysgolion â llai na 40 disgybl yn cyflogi pennaeth ac athro, a bod ysgol â llai na 15 disgybl yn gallu cyflogi pennaeth ac uwch-gymhorthydd. Yn y tabl isod, mae gwybodaeth gyllidol Ysgol Machreth yn y tair blynedd ariannol diwethaf. Mae'n amlygu bod cost y disgybl wedi bod dros ddwbl y cyfartaledd Sirol yn 2013/2014 a 2014/2015 ac eleni dros dair gwaith y cyfartaledd Sirol:

| Ysgol Machreth | | | | Cyfartaledd Sirol |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn Ariannol | Dyraniad Cyllidol | Cyllid Ychwanegol – Polisi Diogelu Staffio (Rhwyd-diogelu) | Cost y Disgybl | |
| 2013/2014 | £126,949 | £23,687 | £8,865 | £3,910 |
| 2014/2015 | £149,002 | £42,510 | £9,650 | £3,856 |
| 2015/2016 | £119,704 | £33,695 | £12,116 | £3,857 |

3.8 Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng Corff Llywodraethol Ysgol Machreth a'r Adran Addysg ynglŷn â dyfodol yr ysgol dros gyfnod o amser gyda thrafodaethau pellach ynglŷn â'r mater wedi eu cynnal yn ddiweddar. Mae'r Cyngor wedi bod yn monitro'r ysgol o ran niferoedd disgyblion a'r sefyllfa staffio a bellach, nid yw sefyllfa'r ysgol yn gynaliadwy. Mae sefyllfa staffio'r ysgol yn fregus iawn ac mae'n bosibl na fydd staff dysgu yno erbyn Medi 2015.

3.9 Mae rhybudd statudol cyfredol Ysgol Machreth (Llanfachreth) yn nodi bod yr ysgol yn cau ar 31 Awst 2017. Roedd y rhybudd hwn yn nodi y byddai disgyblion yr ysgol yn trosglwyddo i'r Ysgol Ddilynol newydd fydd yn cael ei sefydlu 1 Medi 2017.

3.10 Gan ystyried sefyllfa bresennol yr ysgol ac er lles addysgol a chymdeithasol y disgyblion, ymddengys bod angen symud ymlaen ac ystyried cau Ysgol Machreth, Llanfachreth yn gynharach nag Awst 2017, fel y nodwyd yn y rhybudd statudol cyfredol.

## 4. OPSIYNAU

4.1 Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae 3 opsiwn posibl er mwyn symud ymlaen i gau'r ysgol:

4.2 **<u>Opsiwn 1 – Cau'r ysgol ar 31 Awst 2017</u>**

Fe fyddai'r opsiwn hwn yn golygu cadarnhau'r rhybudd statudol gwreiddiol a gyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2015 a pharhau â'r ysgol hyd at ddiwedd Awst 2017.

Gan ystyried ei fod yn debygol iawn na fydd staff dysgu na disgyblion yn yr ysgol ym mis Medi 2015, fe fyddai hynny'n golygu bod adeilad gwag am gyfnod o ddwy flynedd. Byddai oblygiadau ariannol i'r opsiwn hwn hefyd. Byddai'r ysgol yn derbyn dyraniad cyllidol tan Awst 2017 yn ogystal â chyllid ychwanegol trwy'r polisi diogelu staffio. Wrth i Ysgol Machreth dderbyn dyraniad cyllidol a gwarchodaeth staffio, bydd effaith ar ddyraniadau gweddill ysgolion y Sir yn ystod y cyfnod hwn.

4.3 **Opsiwn 2 – Dilyn proses statudol lawn**

| Gweithred | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Cyfnod Rhag-ymgynghori (28 diwrnod) | 8 Gorffennaf 2015 - 5 Awst 2015 |
| Cabinet i gymeradwyo cychwyn ar gyfnod ymgynghoriad statudol yn dilyn ystyried sylwadau'r Eglwys a'r rhag-ymgynghoriad (dyddiadu gweithredu'r penderfyniad 30 Medi 2015) | 15 Medi 2015 |
| Cyfnod Ymgynghori Statudol (42 diwrnod gydag o leiaf 20 diwrnod ysgol) | 1 Hydref 2015 – 12 Tachwedd 2015 |
| Cabinet i drafod yr adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad a phenderfynu ar barhau â'r cynnig ai peidio, hynny yw, cyhoeddi rhybudd statudol neu beidio. (dyddiad gweithredu'r penderfyniad 31 Rhagfyr) | 15 Rhagfyr 2015 |
| Cyhoeddi rhybudd statudol a chychwyn ar Gyfnod Gwrthwynebu (28 diwrnod) | 1 Ionawr 2016 – 1 Chwefror 2016 |
| Cabinet i drafod yr adroddiad gwrthwynebu i benderfynu cadarnhau'r rhybudd neu beidio | 15 Mawrth 2016 |
| Penderfyniad y Cabinet yn weithredol | 30 Mawrth 2016 |
| Diwedd cyfnod cyfeirio'r penderfyniad i'r Llywodraeth | 30 Ebrill 2016 |
| Gweithredu ar y penderfyniad i gau Ysgol Machreth, Llanfachreth | 1 Mai 2016 |

Fe ellid cwtogi'r amserlen hon ychydig trwy i'r Aelod Cabinet Addysg fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniad ar ran y Cabinet yn hytrach na thrafod a phenderfynu mewn cyfarfodydd Cabinet, yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd. Ni fydd yn lleihau'r amserlen yn sylweddol.

4.4 **Opsiwn 3 – Proses 'Cau ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig' yn dilyn Cyfrifiad Disgyblion Ysgol - Ionawr 2016**

Mae Adran 48(3) o Ddeddf Safonau a Threfniadath Ysgolion (Cymru) 2013 yn hepgor yr angen i gynnal prosesau ymgynghori statudol ar gynigion ynglyn ag ysgolion bach. Ar gyfer darpariaethau'r Ddeddf diffinir Ysgol Fechan fel ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr cyn i'r cynigion gael eu gwneud.

| Gweithred | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Cyfrifiad Disgyblion | 19 Ionawr 2016 |
| Aelod Cabinet Addysg yn cyhoeddi taflen benderfyniad i gymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol | 21 Ionawr 2016 |
| Cyhoeddi rhybuddion statudol a chychwyn ar gyfnod Gwrthwynebu Statudol (28 diwrnod) | 29 Ionawr – 26 Chwefror 2016 |
| Aelod Cabinet Addysg i ystyried yr adroddiad gwrthwynebu | 26 Chwefror – 2 Mawrth 2016 |
| Aelod Cabinet yn cyhoeddi taflen benderfyniad | 2 Mawrth 2016 |
| Penderfyniad yn weithredol (yn ddarostyngedig na fydd galw i mewn na chyfeirio i'r Llywodraeth) | 10 Mawrth 2016 |
| Ysgol Machreth, Llanfachreth yn cau | 31 Mawrth 2016 |

Yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, rhagwelir y bydd yr Aelod Cabinet Addysg yn gwneud y penderfyniadau o hyn allan. Os byddai'r sefyllfa yn newid yn sylweddol, bydd modd cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet.

4.5 Gan ystyried yr opsiynau posib, a'r oblygiadau o ran elfennau cyllidol, yr amser ac adnoddau i gwblhau'r gwaith a'r dyddiad gweithredu posib i gau'r ysgol, argymhellir mai'r opsiwn a ffafrir yw opsiwn 3. Yn ddibynnol ar gyfrifiad nifer disgyblion Ionawr 2016, argymhellir dilyn y broses statudol i gau ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig (adran 7 y Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013). Byddai hyn yn golygu cau'r ysgol erbyn 31 Mawrth 2016.

## 5. OBLYGIADAU CAU YSGOL MACHRETH

5.1 Mae ceisiadau mynediad eisoes wedi'u derbyn i drosglwyddo 10 o ddisgyblion cyfredol Ysgol Machreth i ysgolion eraill yn y dalgylch erbyn 1 Medi 2015. Yn y cynnig gwreiddiol, bwriadwyd i ddisgyblion Ysgol Machreth gael cynnig lle yn yr ysgol ddilynol newydd. Mae lleoedd gweigion ar hyn o bryd yn Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain, ac felly argymhellir bod disgyblion Ysgol Machreth yn cael cynnig lle yno yn ystod y cyfnod trosiannol, nes sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ar 1 Medi 2017.

5.2 Mae angen ystyried y bydd adeilad Ysgol Machreth yn wag yn gynharach na'r bwriad gwreiddiol ac y bydd angen cychwyn trafodaethau yn unol â pholisi ôl-ddefnydd ysgolion i gyd-fynd â'r amserlen ddiwygiedig.

5.3 O ran staffio Ysgol Machreth, tan diwedd Awst 2015, mae Pennaeth Strategol yn gyfrifol am Ysgol Machreth ac Ysgol Llanelltyd. Fe fydd athro/athrawes lawn amser yn Ysgol Machreth yn gorffen yn ei swydd ddiwedd Awst 2015. Bydd angen cychwyn trafodaethau gyda holl staff yr ysgol – dysgu ac ategol yn dilyn datblygiadau diweddar.

5.4 Byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant ysgolion y Sir.

## 6. I GRYNHOI:

6.1 Mae angen ail-ystyried yr amserlen , o ystyried bod :

- trafodaethau ad-drefnu eisoes wedi ffafrio opsiwn cau'r ysgol yn 2017
- sefyllfa fregus gyfredol Ysgol Machreth, Llanfachreth wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar
- llythyr wedi'i dderbyn gan Gorff Llywodraethu'r ysgol yn mynegi'r farn nad yw'r ysgol yn gynaliadwy
- a'r ffaith fod yna benderfyniad Cabinet eisoes wedi'i wneud ar 19 Mai 2015 i weithredu datblygiad ehangach yn y dalgylch.

6.2 Mae Ysgol Machraeth yn Ysgol Wirfoddol a Reolir Eglwys yng Nghymru a phe mabwysiedir yr argymhelliad bydd ymgysylltu gyda'r Eglwys wrth symud ymlaen a'r broses.

6.3 Paratowyd asesiadau ardrawiad cymunedol a ieithyddol fel rhan o'r broses ehangach yn Nalgylch y Gader ynghyd ag asesiad ardrawiad cydraddoldeb. Ystyrir fod canfyddiadau'r rhain yn parhau yn gyfredol a pherthnasol i'r penderfyniad hwn a ble cyfyd angen fe'u hadolygir wrth symud ymlaen.

## 7. ARGYMHELLION:

- Tynnu'r rhybudd statudol ynglŷn ag Ysgol Machreth yn ôl.
- Cymeradwyo cychwyn proses amgen ar sail cynnig i gau yr ysgol yn fuan yn 2016.
- Wrth ddilyn y prosesau statudol, cynnig lle i ddisgyblion Ysgol Machreth yn Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn ystod y cyfnod trosiannol cyn sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ar 1 Medi 2017.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Y Prif Weithredwr:**
"Mae'r sefyllfa hon yn un hynod, ac mae'r sefyllfa ymarferol o ran cynaliadwyedd yr ysgol o fewn yr amserlen wreiddiol, sydd wedi ei chydnabod gan y llywodraethwyr, yn golygu bod angen rhoi sylw ar wahân i hyn. Mae'r hyn a awgrymir yn cynnig llwybr sydd yn hyblyg ac y gellir ei weithredu yn weddol hwylus, er lles addysgol a chymdeithasol y disgyblion, fel y mae'r sefyllfa yn datblygu."

**Pennaeth Cyllid**:
"Credaf fod yr adroddiad yn dangos fod rhesymau amlwg (gan gynnwys rhai ariannol) sy'n cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Machreth ar y dyddiad cynharaf posibl, sef Opsiwn 3."

**Swyddog Monitro:**
"Gan ystyried y newid amgylchiadau arwyddocaol sydd wedi digwydd yn Ysgol Machreth yn yr wythnosau diwethaf mae'n briodol bod adolygiad o'r sefyllfa yn digwydd. Mae'r argymhelliad yn golygu na ddaw'r Cabinet i ddyfarniad ar y gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol penodol hyn. Bydd angen dilyn y prosesau statudol perthnasol ar unrhyw lwybr amgen ynghyd â threfniadau ymgysylltu neu ymgynghorol fyddai'n briodol yn yr amgylchiadau. "

**DOGFENNAU CEFNDIR**

Mae holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion ac www.gwynedd.gov.uk/ycabinet.

Mae'r dogfennau cefndir yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd
- Cynllun Blaenoriaethau - Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg
- Dogfen Ffydd mewn Addysg Llywodraeth Cymru
- Agenda a Chofnodion Cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch Y Gader
- Pecyn Ystadegol
- Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad Effaith Cymunedol
- Asesiad Cydraddoldeb
- Asesiad o'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 16 Gorffennaf 2013
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 17 Rhagfyr 2013
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 16 Medi 2014
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 13 Ionawr 2015
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 19 Mai 2015
- Dogfen Ymgynghori Statudol 10 Hydref – 24 Tachwedd 2014
- Dogfennau Ymgynghorol Disgyblion Cynradd ac Uwchradd
- Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol
- Dadansoddiad o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc gan hwylusydd arbenigol
- Rhybuddion Statudol a gyhoeddwyd 25 Chwefror 2015